

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau  
Ambiwlans Cymru

# Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol

Ionawr 2025 / Chwefror 2025

Atodiad 1 – Dangosfwrdd Dangosyddion Uchaf



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

---

Atodiad 1 – Dangosfwrdd Dangosyddion Uchaf  
Fersiwn 1.0  
Cyhoeddwyd: Mawrth 2025

---

gan y Tîm Comisiynu a Pherfformiad

# Adran 1: Dangosyddion Misol / Dangosfwrdd Dangosyddion Uchaf



Top Monthly Indicators		Target 2024/25	Jan-25	Feb-25	2 Year Average	RAG	Top Monthly Indicators		Target 2024/25	Jan-25	Feb-25	2 Year Average	RAG
<b>Our Patients</b>						<b>Health &amp; Well-being</b>							
<b>Timeliness Indicators</b>							Sickness Absence ( <i>all staff</i> )		6.0%	8.46%	N/A	7.88%	R
NHS111 Call Handling Abandonment Rates	< 5%	8.2%	10.1%	8.7%	R	Mental Health Absence Rates		Reduction Trend	2.78%	N/A	2.30%	R	
111 Clinical Triage Call Back Time (P1)	90%	92.0%	96.4%	97.9%	G	Staff Turnover Rate		Reduction Trend	7.95%	7.98%	8.58%	G	
999 Call Answer Times 95th Percentile	00:06	00:10	00:33	00:19	R	Statutory & Mandatory Training		>85%	85.64%	85.93%	76.87%	G	
999 Red Response within 8 minutes	65%	48.3%	51.1%	49.5%	R	PADR/Medical Appraisal		>85%	77.02%	79.79%	72.55%	A	
999 Amber 1 Median	00:18	02:32	02:00	01:29	R	Number of Shift Overruns		Reduction Trend	4,156	3,599	3,693	R	
Oncology Journeys arriving within 45 mins and up to 15 minutes after appointment time	70%	76.0%	77.7%	72.8%	G	<b>Inclusion &amp; Engagement / Culture</b>							
Advanced Discharge & Transfer journeys collected less than 60 minutes after booked time (NEPTS)	90%	81.0%	80.1%	80.2%	R	NEPTS % of Total Calls Answered in Welsh		Increasing Trend	2.2%	1.80%	1.7%	G	
<b>Clinical Outcomes / Quality Indicators</b>						<b>Value</b>							
Return of Spontaneous Circulation (ROSC)	Increasing Trend	19.2%	N/A	19.2%	G	Financial balance - annual expenditure YTD as % of budget expenditure YTD		100%	100.00%	N/A	100%	G	
Stroke Patients with Appropriate Care	95%	89.3%	N/A	80.8%	A	EMS Utilisation Metric (CHARU)		Increasing Trend	34.0%	31.7%	27%	G	
Stroke Call to Hospital Door Times	Reduction Trend	02:49	N/A	02:25	A	Average Jobs per Shift (All Vehicles)		Increasing Trend	2.17	2.55	2.33	R	
ST-Elevation Myocardial Infarction (STEMI) with Appropriate Care	95%	64.5%	N/A	51.1%	R	NEPTS on the Day Cancellations		Reduction Trend	12.0%	12.2%	13%	R	
National Reportable Incidents reports (NRI)		6	7	4		<b>Partnerships / System Contribution</b>							
Can't Send & Cancelled by Patient Volumes	Reduction Trend	6,935	5,815	8,833	R	<b>Inverting the Triangle</b>							
Concerns Response within 30 Days	75%	64.0%	52.0%	51.4%	A	Successful Consult & Close Outcome		17.0%	N/A	N/A	13.1%		
Enactment of the Duty of Candour Total		11	9	5		% Of Total Conveyances taken to a Service Other Than a Type One Emergency Department		Increasing Trend	10.87%	11.20%	11.4%	G	
<b>Our People</b>						<b>NHS111</b>							
<b>Capacity</b>						NHS111 Dental Calls							
Hours Produced for Emergency Ambulances	95-100%	97%	92%	90%	G	Consult & Close Volumes by NHS111		Increasing Trend	N/A	N/A	963		

**Mae CMG o fewn y mis yn cyfeirio at y canlynol =**

Gwyrdd: Mae perfformiad wedi cyrraedd neu wedi rhagori ar y targed (dangos nad oes angen cam gweithredu)

Oren: Mae perfformiad ar neu o fewn 10% o'r targed (dangos rhai problemau/risgiau i berfformiad (mae angen monitro))

Coch: Mae perfformiad yn llai na 10% o'r targed (dangos bod angen monitro agos neu weithredu sylweddol)

I'W BENDERFYNU: Ni ellir cyfrifo'r statws (i'w benderfynu)





Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion perfformiad ateb galwadau/gadael galwadau 111

### Ffactorau dylanwadol – galw ac oriau trin galwadau a gynhyrchwyd

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)



**Dadansoddiad**  
Cynyddodd y gyfradd gadael galwadau 111 i 10.1% ym mis Chwefror 2025 o 8.2% ym mis Ionawr 2025. Gostyngodd canran y galwadau 111 a atebwyd o fewn 60 eiliad, o 44.1% ym mis Ionawr 2025 i 30.6% ym mis Chwefror 2025 ac mae'n parhau i fod islaw'r targed o 95%.

Yn dilyn dirywiad mewn perfformiad yn ystod canol 2024, yn bennaf oherwydd cyflwyno'r system Gwasanaeth Aseiad Clinigol 111 newydd, a aeth yn fyw ar 30 Ebrill 2024, mae perfformiad wedi gwella'n raddol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd yn ystod 2023 pan oedd cyfartaledd ateb galwadau yn 52% a gadael galwadau yn llai nag 8%.

**Cynlluniau a chamau adferol**  
Camau allweddol yn cynnwys:

- Mae camau wedi'u cymryd i geisio gwella'r sefyllfa o ran trin galwadau dros fisoedd y gaeaf gyda lefelau uwch nag erioed o adnoddau wedi'u gweld ym mis Rhagfyr 2024 yn ogystal â chyfluoedd i gryfhau ymhellach gan gynnwys goramser, banc a rheolwyr/goruchwylwyr hefyd wedi'u hail-alinio i drin galwadau.
- Ffocws ar wireddu manteision y Gwasanaeth Aseiad Clinigol 111 newydd;
- Adolygiad cyn-waith o ail-drefnu rhestrau ddyletswydd 111 (ar y gweill) sy'n ystyried y galw cynyddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei weld; pa lefelau perfformiad y mae comisiynwyr eu heisiau a'r cymysgedd o gapasiti ac effeithlonrwydd i gyflawni hyn.
- Ystyrir bod prosiect ail-drefnu rhestrau ddyletswydd 111 hefyd yn ymateb allweddol i wella lefelau salwch hy. patrymau mwy ymarferol.


**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
Y disgwyl yw, gyda recriwtio staff ychwanegol, y bydd perfformiad yn parhau i wella; fodd bynnag, mae risgiau gan gynnwys lefelau uwch o alw a lefelau uchel o salwch. Gwelodd y gwasanaeth 111 gynnydd sydyn mewn salwch ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf


## Dangosyddion Perfformiad Amser Dechrau Aseiad Clinigol 111

### Ffactorau Dylanwadol – Galw ac Oriau Clinigol a Gynhyrchwyd

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)



*DS: Mae problemau ansawdd data wedi cael eu nodi yn 111. Mae'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.*



#### Dadansoddiad

Cyrhaeddodd y galwadau â'r flaenoriaeth uchaf, P1CT, y targed o 90%, gan gofnodi 96.4% ym mis Chwefror 2025.

Gwelodd amseroedd ffonio'n ôl ar gyfer galwadau categori is welliant o fis Chwefror 2024, fodd bynnag, maent wedi dilyn patrwm tebyg i'r llynedd ers hynny ac wedi gostwng o fis Hydref 2024 i fis Chwefror 2025. Os parheir i ddilyn patrwm tebyg, disgwylir y bydd yr amseroedd hyn yn gwella unwaith eto o fis Mawrth 2025.



Gostyngodd nifer yr oriau clinigwyr a gynhyrchwyd fis diwethaf, gan ostwng o 11,591 awr ym mis Ionawr 2025 i 10,268 awr ym mis Chwefror 2025. Roedd absenoldeb salwch clinigwyr yn ystod mis Chwefror 2025 yn 9.65%.

#### Cynlluniau a chamau adferol

- Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys:
- Ffocws ar gyflawni manteision y Gwasanaeth Aseiad Clinigol 111 newydd.
  - Recriwtio hyd at lefelau penodedig o glinigwyr
  - Adolygiad i bennu lefelau priodol o gapasiti i ddiwallu'r galw cynyddol, gan gynnwys arfer creu rhestr ddyletswydd (adolygiad ar gael nawr).
  - Roedd yr adolygiad hwn yn allweddol wrth wella absenoldeb salwch clinigwyr ynghyd ag archwilio cylchdroi, fel rhan o'r Cynllun Gweithlu Strategol.

#### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig


Bydd y Gwasanaeth Aseiad Clinigol 111 newydd yn dod â manteision perfformiad. Datblygwyd y dull cychwynnol o ragfynegi perfformiad, ond mae gwaith pellach yn cael ei wneud i fireinio cywirdeb y rhagfynegydd.




# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion Perfformiad Galwadau 999

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)



### Ffactorau Dylanwadol – Galw ac Oriau a Gynhyrchwyd



#### Dadansoddiad

Gostyngodd perfformiad ateb galwadau y 95ed ganradd i 33 eiliad ym mis Chwefror 2025 a methodd â chyflawni'r targed o 6 eiliad; fodd bynnag, mae'r amser ateb galwadau canolrifol ar gyfer y gwasanaeth 999 wedi bod yn gyson dda, sef 2 eiliad (mis Hydref 2024). Fodd bynnag, oherwydd mudo'r gwasanaeth ffôn 999, mae gwiriadau ansawdd data yn cael eu cynnal ar gyfer data pellach ar gyfer 2024.

Bu gostyngiad yn y galw ym mis Chwefror 2025 i 37,911 o alwadau o 43,480 ym mis Ionawr 2025.



Gwelodd lefelau salwch ostyngiad bach o 13.25% ym mis Ionawr 2025 i 10.62% ym mis Chwefror 2025.

#### Cynlluniau a chamau adferol

- Bydd yn parhau i or-recriwtio am yr ychydig fisoedd nesaf (fel y'i cymeradwywyd gan yr ADO a'r EDOps) a fydd hefyd yn cefnogi colledion posibl o symud Bryn Tirion i Dŷ Elwy.
- Mae recriwtio pellach ar y gweill yn y Gogledd, gyda thair carfan yn dechrau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae gwaith yn parhau i nodi beth sy'n cyfrannu at salwch uchel drwy reoli presenoldeb yn y gwaith a gadawiadau drwy'r prosesau recriwtio a dethol.

Cwblhawyd rhaglen drawsnewid ym mis Tachwedd:

- **Adolygiad rhestr ddyletswyddau.** Adolygiad rhestr ddyletswyddauanfon ar gyfer Dyrannwyr ac Anfonwyr. Wedi'i gwblhau.
- **Newid ffiniau.** Ail-alinio ffiniau anfon i gydbwysu llwyth gwaith a phwysau ar gyfer timau anfon unigol. Wedi'i gwblhau.
- **Ffyrdd ehangach o weithio.** Mae'r prosiect hwn yn ceisio creu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwell cynhyrchiant trwy adolygu prosesau a gweithdrefnau yn ogystal â darparu cysondeb a lleihau amrywiad ledled y canolfannau. Wedi'i gyflawni.



#### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig


Mae'r canolrif a'r 65ed ganradd yn perfformio'n dda iawn ac yn sefydlog. Papur yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar wydnwch Cydgysylltu EMS yn y dyfodol hy. galw yn y gaeaf yn erbyn capasiti (gydag effeithlonrwydd).

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion Perfformiad Coch

Ffactorau dylanwadol – Galw, Oriau a Gynhyrchwyd ac Oriau a Gollwyd

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)



### Dadansoddiad

Mae perfformiad 8 munud coch yn parhau i fod islaw'r targed o 65% gan gynyddu ychydig ym mis Chwefror 2025 i 51.11%.

Roedd perfformiad 10 munud coch ar gyfer mis Chwefror 2025 yn 62.2%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd dwy flynedd (61.1%).

Un o'r prif benderfynyddion yw'r **galw coch**, sydd wedi **cynyddu** dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda'r galw coch ym mis Chwefror 2025 11.28% yn uwch na'r hyn a welwyd ym mis Chwefror 2024. Wrth i'r galw galwadau coch gynyddu, felly hefyd y mae nifer y digwyddiadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud, gyda'r ffigur ar gyfer mis Chwefror 2025 o 2,586, 13.92% yn uwch na'r ffigur ar gyfer mis Chwefror 2024, hy. mae'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd mwy o alwadau coch mewn 8 munud, ond mae'r enwadur hefyd yn cynyddu.



Mae'r graff chwith isaf yn dangos y gydberthynas rhwng perfformiad Coch cyffredinol ac **oriau a gollwyd wrth drosglwyddo i'r ysbyty**, sy'n dangos bod perfformiad Coch yn gwella hefyd wrth i gyfraddau trosglwyddo ostwng. Bu 18,811 o oriau coll ym mis Chwefror 2025.

### Cynlluniau a chamau adferol

- Y prif gamau gwella yn rhodd yr Ymddiriedolaeth yw fel a ganlyn:
- Cynnal y sefydliad a gomisiynwyd mewn lefelau swyddi yn gyffredinol: cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei meincnod UHP o 95% ym mis Chwefror gyda UHP o 95% (yr holl adnoddau);
  - Cyflwyno Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) yn llawn: cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei UHP CHARU uchaf erioed ym mis Ionawr;
  - Defnyddio cam cyntaf y camau gweithredu tuag at fodel clinigol wedi'i ddiweddarau ee. sgrinio clinigol cyflym, yn gyflym cyn gaeaf 2024/25, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth hyn); ac
  - Y categori Porffor newydd.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig



Mae'r modelu ar gyfer y gaeaf bellach wedi'i gwblhau ac mae'r canlyniadau wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllunio ar gyfer y gaeaf. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gynllun gaeaf cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru.




# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion Perfformiad Oren

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)






### Ffactorau dylanwadol – Galw, Oriau a Gynhyrchwyd ac Oriau a Gollwyd



**Dadansoddiad**  
 Gostyngodd amser perfformio canolrifol Oren 1 yn ystod mis Chwefror 2025 i 2 awr o'i gymharu â 2 awr a 32 munud ym mis Ionawr 2025. Mae'r amser ymateb canolrifol delfrydol ar gyfer Oren 1 yn parhau i fod yn 18 munud.

Gostyngodd y 95ed ganradd Oren 1 hefyd yn ystod mis Chwefror 2025 i 9 awr a 6 munud, i lawr o 11 awr a 45 munud ym mis Ionawr 2025. Mae'r amser hwn yn parhau i fod yn llawer rhy hir ac yn uwch na'r ffigur cyfartalog dros ddwy flynedd o 6 awr a 54 munud.

Fel gyda Choch, mae cydberthynas gref rhwng perfformiad Oren ac oriau a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo.



**Cynlluniau a chamau adferol**  
 Mae'r camau sy'n cael eu cymryd yr un fath i raddau helaeth â'r rhai sy'n gysylltiedig â pherfformiad Coch ar y sleid flaenorol.


**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
 Mae lefel gynhyrchu yr Ymddiriedolaeth a gomisiynwyd (ei rhestrau dyletswydd) wedi'i chynllunio i ymdopi â 6,000 awr o oriau a gollwyd wrth drosglwyddo. Oni bai bod gostyngiad sylweddol yn yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion a thrawsnewid llwybrau ambiwlans brys 999, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weld amseroedd aros oren hir a niwed y gellir ei osgoi i gleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl ymuno â chyfarfod LIC ar sut y gellir lleihau trosglwyddo i'r lefel 6,000.

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Profiad y Claf – Dylanwadu ar Ddangosyddion Gofal Ambiwlaens

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

D&T **R** Oncoleg **G** Galwadau Cymraeg **G** FPC **CI**



**Dadansoddiad**  
Cyrhaeddodd 77.71% o deithiau Oncoleg uwch o fewn 45 munud cyn ac hyd at 15 munud yn hwyr o amser eu hapwyntiad ym mis Chwefror 2025, gan gyflawni'r targed o 70% unwaith eto. Mae perfformiad oncoleg yn parhau fod yn faes ffocws i'r gwasanaeth, ac rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau ar y teithiau hyn.

Gostyngodd teithiau Rhyddhau a Throsglwyddo a archebwyd ymlaen llaw ac a gasglwyd lai na 60 munud ar ôl eu hapwyntiad ychydig ym mis Chwefror 2025 i 80% ond mae'n parhau i fod islaw'r targed o 95%. (95%).

Cynyddodd teithiau Arenol Gwell ychydig bach am y trydydd mis yn olynol i 73.36%, a felly cyflawnodd y safon perfformiad y cytunwyd arni o 70% am yr ail dro yn unig ers mis Medi 2024.

Gostyngodd nifer y galwadau a atebwyd i 16,237 o alwadau yn ystod mis Chwefror 2025, i fyny o 18,808 ym mis Ionawr 2025; fodd bynnag, gwellodd cyflymder cyfartalog ateb galwadau o 4 munud 21 eiliad i 3 munud 22 eiliad.

Mae salwch ACA1 yn parhau i fod yn uwch na'r targed o 5.99%, gan gyrraedd 8.12% ym mis Chwefror 2025. Fodd bynnag, mae salwch ACA2 wedi aros islaw'r targed am yr ail fis yn olynol, gan gyflawni 5.74% ym mis Chwefror 2025.

### Cynlluniau a chamau adferol




Mae perfformiad gwell ar reoli data ac amseroedd cofnodi siwrneiau ar y gweill, gyda ffocws mwy ar berfformiad ar benwythnosau. Yn rhagweld gwelliant mewn perfformiad dros yr ychydig fisoedd nesaf, er bod gofal yn cael ei roi ynghylch cyflawni'r ffigur 95% gan fod hwn bob amser yn darged uchelgeisiol sydd angen ymgysylltiad a newid system gan Fyrddau Iechyd sy'n gymhleth ac yn heriol i'w gyflawni.

Mae allweddï rhestrau dyletswydd newydd wedi'u cwblhau yn seiliedig ar y galw diweddaraf ac mae'r adolygiad rhestrau dyletswydd bellach wedi dechrau.

Mae monitro salwch gwell wedi'i weithredu ar lefel ADO/HoS ac mae pob achos hirdymor a chymhleth yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

### Lwybr Perfformiad Disgwyliedig


Bydd ail-drefnu'r rhestrau dyletswyddau, a fydd yn cymryd chwe mis i'w chyflawni, yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd mwy o gleifion o fewn yr amlen adnoddau bresennol (400 o deithiau cleifion ychwanegol yr wythnos).



# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion Clinigol

Adferiad cylchrediad digymell, cleifion strôc a amheuir gyda gofal priodol, trawiad ar y galon ag uchder ST (STEMI) gyda gofal priodol (Swyddog Cyfrifol: Andy Swinburn)



**Dadansoddiad**  
Canran y cleifion a gofnodwyd fel rhai a oedd yn derbyn bwndeli gofal priodol ym mis Ionawr 2025 oedd:

**Strôc – 89.3%, cynnydd bach o 88.7% ym mis Rhagfyr 2024.** Mae cydberthynas agos rhwng dogfennu FAST (prawf i ganfod symptomau strôc) a chydymffurfiaeth â bwndel gofal.

**STEMI (trawiad ar y galon) – 64.5%, gostyngiad o 76.7% ym mis Rhagfyr 2024.** Bu gostyngiad amlwg yn y broses o ddogfennu'r holl feini prawf ym mis Ionawr gyda gostyngiad yn y broses o gofnodi'r gydran analgesia. Arhosodd nifer yr achosion yn isel (61) felly, gan gynyddu anwadlwydd y data cydymffurfio felly gallai hyn fod yn amrywiad naturiol.

**Adferiad cylchrediad digymell yn yr ysbyty (o ataliad ar y galon) – 19.2%, gostyngiad o 22.3% ym mis Rhagfyr.** Gwnaed diweddariad i sgriptio codio ROSC a effeithiodd ar y data o fis Gorffennaf 2024.



Arweiniodd hyn at newid sylweddol lle mai mis Awst 2024 oedd yr uchaf ers gweithredu ePCR. Gweithredwyd 'hwb' i wella dogfennaeth ar gyfer meysydd penodol gan gynnwys canlyniad ym mis Hydref 2024. Parhaodd mis Rhagfyr a mis Ionawr i weld niferoedd uwch o achosion yn y dangosydd hwn.

**D.S.** Oherwydd natur y metrig hwn, mae amrywiad achos cyffredin yn digwydd a all arwain at ostyngiad sylweddol mewn perfformiad o nifer fach o ymdrechion adfywio aflwyddiannus. Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn yn amlffactoraidd ac felly nid yw'n bosibl nodi'r elfen benodol.

Yn dilyn y newid i Gofnod Clinigol Claf electronig, mae'r ffordd y caiff data ei gasglu wedi newid. Cynhyrchir adroddiadau Dangosyddion Clinigol awtomataidd o ddata a fewnbynnir yn uniongyrchol gan glinigwyr. O ganlyniad i'r cydymffurfiaeth isel a ragwelwyd, cynhyrchwyd risg 535 gyda thri lliniariad allweddol i weithio arnynt:

- Dyluniad rhyngwyneb defnyddiwr Cofnod Clinigol Cleifion electronig
- Rhyngweithio clinigwr â'r Cofnod Clinigol Claf electronig
- Cywirdeb y sgriptio i echdynnu'r data o'r warws data i greu'r adroddiadau.

Mae newidiadau pellach i'r Rhyngwyneb Defnyddiwr Cofnod Clinigol Cleifion electronig wedi'u cynllunio ar gyfer y diweddariad nesaf a drefnwyd ar gyfer gwanwyn 2025, a bydd yr effaith yn cael ei monitro gan y Grŵp Deallusrwydd a Sicrwydd Clinigol.



# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

## Dangosyddion Clinigol





Hypoglycemia, Gwddf y ffemwr wedi torri (#NOF) a metrigau sy'n seiliedig ar amser (Strôc a STEMI)

Galwad i Ddrws  
**A**

Hunanasesiad:  
Cryfder Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

(Swyddog Cyfrifol: Andy Swinburn)

QUEST



### Dadansoddiad

Canran y cleifion a gofnodwyd fel rhai a oedd yn derbyn bwndeli gofal priodol ym mis Ionawr 2025 oedd:

**Hypoglycemia (cleifion diabetig â glwcos gwaed isel) – 77.2%, cynnydd o'r 76.6% ym mis Rhagfyr.** Gan barhau gyda chynnydd bach mewn cydymffurfiaeth ym mis Ionawr er gyda gostyngiad bach yn nifer yr achosion o 303 (Rhagfyr 24) i 276 ar gyfer mis Ionawr. Mae'n debygol bod hyn o fewn yr amrywiad naturiol.

**Gwddf y ffemwr wedi torri (toriad clun) – 88.2%, gostyngiad bach o'r 92.2% ym mis Rhagfyr.** Er mai dim ond yn ostyngiad bach mewn cydymffurfiaeth, gellir priodoli hyn i ostyngiad yn yr elfen dogfennu sgoriau poen.

**Amseroedd galwad i ddrws ar gyfer Strôc a STEMI** – Er bod amseroedd galwad i ddrws wedi ymestyn ar gyfer STEMI yn ystod mis Ionawr, gwelodd yr adroddiad cyfatebol ar gyfer strôc gyda'r ddau newid yn cael eu priodoli i'r elfen galwad i ddrws o'r cylch galw. Bu newidiadau yn y model clinigol yn ystod y cyfnod hwn a bydd angen mwy o ddadansoddi dros gyfnod estynedig i ddeall y duedd sylfaenol a gwir achos hyn.

### Cynlluniau a chamau adferol

- Cynllun adfer a weithredwyd o fis Ebrill i fis Medi 2024 ac sy'n parhau i gael ei fonitro gan BAU trwy CIAG i gynnal y gwelliannau:
- Ffocws parhaus ar gyfathrebu â chlinigwyr i ddefnyddio'r meysydd Cofnod Clinigol Claf electronig pwrpasol (yn ogystal â'r naratif).
- Darparwyd data anghydfurfiol wythnosol i gefnogi sgysrsiau Uwch Barafeddygon gyda chlinigwyr i wella cydymffurfiaeth.
- Hyrwyddwyd Dangosyddion Clinigol, bwndeli gofal a chwblhau Cofnod Clinigol Cleifion electronig mewn gweithdai sy'n canolbwyntio ar ardal y Bwrdd Iechyd.
- Adolygiad o'r rhyngwyneb ePCR dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Digidol.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

O ganlyniad i'r gwaith gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen Grŵp Adferiad CI a'r ymyriadau gwella parhaus, disgwyli'r cynnydd parhaus mewn cyfraddau cydymffurfio a bydd y Grŵp Deallusrwydd a Sicrwydd Clinigol yn ei fonitro.

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol Cleifion a Phryderon Cleifion





(Swyddog Cyfrifol: Liam Williams)

Pryderon.  
A

Hunanasesiad:  
Cryfder  
Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

QUEST

Safon Iechyd a Gofal  
Iechyd - Gofal Diogel  
/ Gofal Amserol



## Dadansoddiad

Mae cydymffurfiaeth â'r targed cwynion o 30 diwrnod gwaith wedi gostwng eto'r mis diwethaf, gan barhau i adlewyrchu'r heriau sy'n gysylltiedig â phwysau cynyddol ar draws y sefydliad yn ystod cyfnod y gaeaf. Mae nifer y cwynion agored hefyd wedi parhau i dyfu.

Mae nifer y NRI a adroddwyd yn dangos 'uchafbwynt gaeaf' amlwg yn dilyn cyfnod o ddatgan Digwyddiad Critigol a lefelau uchel parhaus o weithgarwch gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu aeddfedrydd wrth nodi digwyddiadau niwed cymedrol sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol, yn ogystal â'r rhai sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd NRI.

Yn hanesyddol, mae niferoedd uchel o ddigwyddiadau'n cael eu rhannu â Byrddau Iechyd o dan drefniadau ymchwilio ar y cyd.

## Cynlluniau a chamau adferol

- Monitro parhaus o adrodd ar ddigwyddiadau cenedlaethol, deddfu'r Ddyletswydd Gonestrwydd
- Mae perfformiad cwynion yn cael ei fonitro gan arweinyddwr tîm yn rheolaidd ac mae pob tîm yn gweithio i gyflawni amserlenni cenedlaethol a safle meincnodi o'i gymharu â sefydliadau eraill GIG Cymru fel y gwelir yn y dangosfwrdd Ansawdd a Diogelwch cenedlaethol, Beacon.

## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Mae'n debygol y bydd ffocws rheng flaen gweithredol dros gyfnod y gaeaf yn parhau i ddylanwadu ar berfformiad cwynion dros y misoedd nesaf.

\*DS: Data'n gywir ar y dyddiad a'r amser y cafodd ei echdynnu; felly, mae'r ffigurau hyn yn destun newid eto

\*\*DS: Cydymffurfiaeth 30 diwrnod wedi'i hadrodd o Power BI ac felly nid yw'r data wedi'i ddilysu

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf



## Dangosyddion Diogelwch Cleifion a Phobl

Hunanasesiad:  
Cryfder  
Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

QUEST

(Swyddog Cyfrifol: Liam Williams)

Safon Iechyd a Gofal  
Iechyd – Gofal  
Diogel



### Dadansoddiad

Mae nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau wedi lleihau ers y chwarter diwethaf, yn bennaf ar draws adrodd Dim Niwed. Anogir adrodd am achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn ystod cyfarfodydd gweithredol dyddiol er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o bob cyfle. Mae digwyddiadau caeedig yn parhau i ddangos bod lefelau dilys o niwed difrifol neu drychinebus yn parhau i fod yn gyson isel.

Dylid dehongli cyfrolau misol yn ofalus gan y gall digwyddiadau gael eu dyblygu ar y system (er enghraifft dau griw yn cyflwyno'r un digwyddiad); fodd bynnag, mae cyflwyno'r Gweithdrefn Gweithredu Safonol Gwrthod gan y Tîm Ansawdd wedi lleihau'r risg o ddyblygu. Mae cyfrolau digwyddiadau yn cynnwys y rhai a adroddwyd yn fewnol gan staff WAST, ond hefyd y rhai a adroddwyd gan gydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd am wasanaethau neu ofal WAST.

Lefelau niwed ar gyfer Chwefror 2025 oedd fel a ganlyn: -

- Dim niwed na pherygl - 43
- Isel - 67
- Cymedrol - 45
- Niwed difrifol - 22
- Trychinebus/Marwolaeth - 38

### Cynlluniau a chamau adferol

- Mae diwylliant rheoli digwyddiadau yn cael ei gefnogi drwy Grwpiau Defnyddwyr Datix a Llywodraethu Datix sydd newydd eu sefydlu (Datix Cymru yw'r feddalwedd adrodd electronig ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau).

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Mae cyfrolau digwyddiadau a lefelau niwed yn cael eu monitro'n agos a'u trionglio â ffynonellau gwybodaeth eraill sy'n gysylltiedig â newidiadau i Drawsnewid Model Clinigol.

Ffynhonnell y data:

Datix Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf Dangosyddion Crwneriaid, Marwolaethau ac Ombwdsmyrn


(Swyddog Cyfrifol: Liam Williams)

Crwneriaid  
Hunanasesiad:  
Cryfder Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

Marwolaethau  
Hunanasesiad:  
Cryfder Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

QUEST

Safon Iechyd a Gofal  
Iechyd – Gofal Diogel



Mortality Reviews Data source: Internal Web Application

## Dadansoddiad

Mae nifer y ceisiadau gan grwneriaid yn parhau i ddod â lefel uchel o weithgarwch i'r Ymddiriedolaeth. Mae achosion cwêst yn parhau i gyflwyno gyda chymhlethdod cynyddol a nifer fawr o ddatganiadau a thystion yn cael eu galw. Mae'n amlwg bod llawer o geisiadau'n cyd-fynd ag amserlenni byr. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn gwneud hwn yn faes o bwysau parhaus ar draws gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth ac i'r staff unigol sy'n ymwneud â chynrychioli'r sefydliad.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i aeddfedu ei dulliau Dysgu o Farwolaethau, trwy gyfarfod chwarterol ar ddysgu thematig, brysbennu wythnosol o atgyfeiriadau Archwilydd Meddygol a phaneli dysgu bob pythefnos ar gyfer adborth Archwilydd Meddygol.

**Marwolaethau** - Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu dull aml-gyfarwyddiaeth o adolygu Adborth Gwasanaeth Archwilydd Meddygol, yn unol â Fframwaith Model Dysgu o Adolygiadau Marwolaethau Cymru Gyfan diwygiedig (Ail Argraffiad). Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod brysbennu Lefel 1 a Phanel Dysgu Archwilydd Meddygol Lefel 2. Mae brysbennu Lefel 1 bellach yn cael ei gynnal ar yr un pryd gan y Tîm Diogelwch Cleifion heb unrhyw bryderon ynghylch amseroldeb / perfformiad. Mae ôl-groniad o achosion Lefel 2, ond rhagwelir y bydd hyn yn cael ei adennill dros y ddau chwarter nesaf wrth i ddull y Panel ymsefydlu a bod cyfarwyddo yn galluogi adolygiadau mwy effeithlon.

Mae nifer yr atgyfeiriadau at Archwilydd Meddygol wedi lleihau ers mis Ebrill 2024, a chredir bod hyn oherwydd gwaith perthynas a wnaed gyda chyrff iechyd eraill i leihau dyblygu achosion, lle'r oedd yr un achos, ar adegau, yn cael ei anfon yn flaenorol gan y gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol a'r Bwrdd Iechyd cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd y duedd hon yn cael ei monitro'n agos i asesu a oes ffactorau dylanwadol eraill.

## Cynlluniau a chymau adferol

- Mae adnodd dros dro ychwanegol yn y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi rheoli cydlyn a gweithgaredd cwestau ar draws yr Ymddiriedolaeth.

## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Bydd gweithgaredd y crwner yn parhau i gael ei fonitro a bydd oedi wrth gasglu datganiadau yn cael ei gynyddu a'i flaenoriaethu'n fewnol yn ôl yr angen.

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Our Patients: Quality, Safety & Patient Experience


## Safeguarding, Data Governance & Public Engagement Indicators

(Swyddogion Cyfrifol: Jonny Sammut a Liam Williams)

Safon Iechyd a Gofal Iechyd – Gofal Diogel

Hunanasesiad: Cryfder Rheolaeth Fewnol: Cryf

PCC



### Dadansoddiad

**Diogel:** Ym mis Chwefror 2025 cyflwynodd cydweithwyr WAST gyfanswm o 199 o Adroddiadau Oedolion mewn Perygl, a phroseswyd 87% o'r rhain o fewn 24 awr. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar adroddiadau Angen Gofal a Chymorth Oedolion (llesiant); rhannwyd 631 o adroddiadau ag awdurdodau lleol ledled Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cyflwynwyd 236 o Adroddiadau Diogelu Plant ym mis Chwefror 2025, a phroseswyd 94% ohonynt o fewn 24 awr.

**Llywodraethu Data:** Ym mis Chwefror 2025, adroddwyd am 17 o ddigwyddiadau yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth ar Datix Cymru a oedd yn cael eu categorio fel toriad Llywodraethu Gwybodaeth. O'r 17 toriad diogelwch hyn, roedd 4 yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth, 4 â Chyfathrebu, 3 â Chofnodion/Gwybodaeth, 3 ag IG/Cyfrinachedd, 2 ag Offer/Dyfeisiau, ac 1 â Seilwaith.

**Ymgysylltu â'r Cyhoedd:** Yn ystod mis Rhagfyr, mynychodd PECI 18 o gyfleoedd ymgysylltu cymunedol, gan ymgysylltu â thua 500 o bobl. Roedd hyn yn cynnwys mynychu'r Fforwm 50+ Casnewydd, digwyddiad Ffordd o Fyw Iach De-orllewin Caerdydd, Expo Ffordd o Fyw Halal, Ffair Anghydraddoldebau Iechyd Caerdydd a Rhwydwaith Gofalwyr Casnewydd. Mynychwyd digwyddiad 'Negeseuon Gaeaf' pellach yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais i drafod a hyrwyddo gwasanaeth GIG 111 Cymru.

### Cynlluniau a chamau adferol

**Diogel:** Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r holl adroddiadau diogelu yn ddigidol drwy Doc-works Scribe ac mae monitro rheolaidd o'r system gan y Tîm Diogelu yn darparu modd i nodi unrhyw broblemau gydag adroddiadau oedi gyda chamau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi cydweithwyr WAST i ddefnyddio system Doc-works Scribe a chysylltu ag awdurdodau lleol pan fo angen. Dim ond adroddiadau diogelu papur lleiaf sy'n cael eu derbyn nawr, cânt eu defnyddio fel copi wrth gefn ac fe'u hanfonir yn uniongyrchol at y Tîm Diogelu i weithredu arnynt. Mae'r Tîm Diogelu yn monitro unrhyw adroddiadau papur a dderbynnir ac yn rhoi adborth uniongyrchol i gydweithwyr i wella arfer.

**Llywodraethu Data:** Yn ystod y cyfnod adrodd, o'r 17 digwyddiad yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth a adroddwyd ar Datix, ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i fonitro ac adolygu digwyddiadau a adroddwyd lle bo'n berthnasol.



**Ymgysylltu â'r Cyhoedd:** Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan y Tîm PECI yn cefnogi egwyddorion yr Ymddiriedolaeth sef darparu gofal o'r ansawdd uchaf a phrofiad o'r ansawdd uchaf i ddefnyddwyr gwasanaeth fel sbardun ar gyfer newid a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu heb ragfarn na gwahaniaethu.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

**Diogel:** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i anelu at gyflawni 100% o atgyfeiriadau Oedolion a Phlant sydd mewn perygl o fewn 24 awr.

**Llywodraethu Data:** Mae Cynllun Gweithredu Gwella Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i gael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ym mis Mawrth 2025. Adroddir ar statws y Cynllun Gweithredu i'r IGSG a'i fonitro ganddo.

**Ymgysylltu â'r Cyhoedd:** Caiff yr holl adborth a dderbynnir ei rannu â Thimau a Rheolwyr perthnasol ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar welliant parhaus y gwasanaeth. Mae gwybodaeth am brofiad cleifion ac ymgysylltu â'r gymuned bellach yn cael ei rhannu'n wythnosol yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Ansawdd. **Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru**



\*DS: Mae Digwyddiadau Llywodraethu Data yn seiliedig ar 'Dyddiad a Adroddwyd' yn hytrach na 'Dyddiad y Digwyddiad' gan fod y broses yn un â llaw ar hyn o bryd nes bod dangosfwrdd yn cael ei weithredu ac felly mae'n destun newid. Ffynhonnell y Data Diogelu: Doc Works

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf Dangosyddion Iechyd a Diogelwch (RIDDOR)


(Swyddog Cyfrifol: Liam Williams)

Hunanasesiad:  
Cryfder Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol


PCC

Safon Iechyd a Gofal  
Iechyd – Gofal Diogel

Volume of RIDDOR Reports by Month



Total Violence & Aggression Reports by Month



Ffynhonnell y data: Datix

## Dadansoddiad

**RIDDOR:** Roedd 3 digwyddiad yr oedd angen eu hadrodd o dan RIDDOR yn ystod mis Chwefror 2025, roedd 2 ohonynt ar gyfer anaf a oedd angen dros 7 diwrnod o waith ac roedd 1 wedi'i nodi fel anaf penodol.

Cyflwynwyd 100% o'r RIDDOR o fewn amserlenni adrodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch oherwydd perthnasoedd gwaith da gyda'r Timau Iechyd a Diogelwch a Gweithredol. Bu 1 toriad (anaf benodol) yn 7 diwrnod, cwmpodd aelod o staff o uchder tra'n golchi'r llawr yng nghefn ambiwlans

Bu 1 anaf dros 7 diwrnod o ganlyniad i drin offer â llaw ar lifft cynffon cerbyd.

Cafwyd 1 anaf dros 7 diwrnod wrth osod silindr ocsigen yng nghwprdd ochr yr ambiwlans a chau'r drws ar eu dwylo

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol:** Mae cyfanswm o 44 o ddigwyddiadau Trais ac Ymddygiad Ymosodol wedi cael eu hadrodd ym mis Chwefror.

Adroddwyd am 1 Ymosodiad Corfforol ar staff yn ystod y chwarter gyda 43 digwyddiad o gam-drin geiriol.

Adroddwyd bod 10 digwyddiad yn gymedrol o ran niwed a 19 yn isel o ran niwed gyda 0 achos yn cael eu nodi fel rhai a achosodd niwed difrifol.

Cynyddodd nifer yr achosion o ymosodiad geiriol yn sylweddol yn ystod y mis gydag ymddygiad ymosodol a bygythiol yn cyfrif am 19 o'r 43 o ddigwyddiadau.

## Cynlluniau a chamau adferol

**RIDDOR:** Defnyddir cyfarfod digwyddiadau Datix wythnosol i nodi digwyddiadau y mae angen eu hadrodd o dan RIDDOR a phenodi Cynghorydd Diogelwch i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad ac adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol:** Mae achosiad digwyddiadau Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn cael ei thueddu i nodi addasrwydd cofnodi digwyddiadau mewn ymateb i nifer y digwyddiadau niwed isel a dim niwed gyda'r nod o gynnal ymchwiliadau addas a darparu digon o gefnogaeth i aelodau staff yr effeithir arnynt. Mae'n werth nodi nifer o ddigwyddiadau a adroddwyd gan staff Mae'r tîm yn parhau i weithio gyda'r Ddesg Gymorth Clinigol i archwilio mecanweithiau i amddiffyn staff yn well trwy ddefnyddio Gorchmynion Ymddygiad Cymunedol drwy'r Cynlluniau Gofal Cleifion.


## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

**RIDDOR:** Wrth i'r tywydd wella dros y misoedd nesaf, disgwylir y bydd nifer is o ddigwyddiadau llithro a baglu yn cael eu hadrodd oherwydd gwelliant yng nghyflwr y llawr yn eiddo cleifion.

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol:** Disgwylir i nifer yr ymosodiadau geiriol gynyddu dros y misoedd nesaf wrth i staff ddod yn fwy hyderus yn y gefnogaeth a ddarperir gan dîm Trais ac Ymddygiad Ymosodol. [Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru](#)

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf Dangosyddion Niwed Posibl i Gleifion

(Swyddog Cyfrifol: Andy Swinburn)



## Dadansoddiad

Ym mis Chwefror 2025, cafodd 63 o ambiwlansys eu hatal oherwydd cludiant amgen Cynllun Diogelwch Clinigol. Yn ogystal, cafodd 6,449 o ambiwlansys eu canslo gan gleifion (gan gynnwys cleifion yn gwrthod triniaeth yn y fan a'r lle) gostyngiad o'r 7,707 ym mis Ionawr 2025. Mae tuedd ar i lawr yn nifer y cleifion sy'n canslo apwyntiadau, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod hynny'n gysylltiedig â gweithredu Sgrinio Clinigol Cyflym.

Gwnaed 720 o geisiadau i Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd i ryddhau galwadau Coch neu Oren 1 ar unwaith ym mis Chwefror 2025. O'r rhain, derbyniwyd a rhyddhawyd 166 yn y categori Coch, gydag 1 heb ei dderbyn. Yn ogystal â hyn, rhyddhawyd 183 o ambiwlansys i ymateb i alwadau Oren 1, ond ni chafodd 370 eu rhyddhau.

Mae'r graff yn y gwaelod chwith yn dangos, ym mis Chwefror 2025, o'r 5,144 o gleifion a arhosodd y tu allan i Adran Achosion Brys am dros awr i gael eu trosglwyddo i ofal yr ysbyty, y gallai'r Ymddiriedolaeth dybio na fyddai 15% (772 o gleifion) yn profi unrhyw niwed, y byddai 53% (2,726 o gleifion) yn profi niwed isel, y byddai 23% (1,183 o gleifion) yn profi niwed cymedrol a'r byddai 9% (463 o gleifion) yn profi niwed difrifol.

Ym mis Chwefror 2025 roedd lefelau Cynllun Diogelwch Clinigol yr Ymddiriedolaeth fel a ganlyn:





## Cynlluniau a chamau adferol

Mae rhyddhau coch ar unwaith yn cael ei fonitro'n wythnosol gan y Prif Weithredwr ac yn cael ei adrodd i Brif Swyddogion Gweithredol y Byrddau Iechyd gyda'r disgwyliad nad oes unrhyw ostyngiadau ar gyfer Rhyddhau Coch gan unrhyw un o'r 7 Bwrdd Iechyd. Mae pob bwrdd iechyd wedi cytuno i'r mesur hwn. Roedd cyfarfodydd y Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig (ICAP) wedi cael eu hoedi wrth i'r Ymddiriedolaeth symud i'r trefniadau comisiynu newydd gyda threfniadau newydd i'w disgwyl o Ch1. Mae gan fframwaith Cyflawni Perfformiad GIG Cymru 2024/25 darged o ddim trosglwyddiadau o fwy nag awr, mae hyn yn cyfateb i 7,500 awr o oriau coll wrth drosglwyddo.

## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro lefelau Cynllun Diogelwch Clinigol yn ddyddiol drwy'r ODU ac yn wythnosol drwy'r Cyfarfod Perfformiad Gweithrediadau Wythnosol a chymerir camau lliniaru i leihau'r effaith ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i'r galw. Gweler hefyd sleidiau ar berfformiad Coch a pherfformiad Oren, yn benodol, camau adferol.



\*DS: Data'n gywir ar y dyddiad a'r amser y cafodd ei echdynnu; felly, mae'r ffigurau hyn yn destun newid

# Ein cleifion: Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf Arolygon Profiad y Claf

(Swyddog Cyfrifol: Liam Williams)

Hunanasesiad:  
Cryfder Rheolaeth  
Fewnol: Cymedrol

PCC

Safon Iechyd a Gofal  
Iechyd – Gofal Diogel

January & February 2025		
<b>NEPTS</b> (527 responses)	Benchmark	Score
How long did you wait for your transport to take you home after your appointment.	85	83
Were you happy with the transport you received?	85	95
<b>999</b> (15 responses)	Benchmark	Score
The 999-call taker who answered your call was reassuring.	85	92
The 999-call taker who answered your call explained what was going to happen next.	85	92
You felt confident in the call taker ability to manage your call and provide appropriate advice.	85	92
The length of time I waited for an ambulance to arrive was acceptable.	85	55
<b>111</b> (34 responses)	Benchmark	Score
Do you feel your call to 111 Wales was helpful?	85	50
Did you follow the advice given to you by NHS 111 Wales?	85	79
Would you consider using NHS 111 Wales again?	85	52
<b>WAST Overall - Friends &amp; Family Test</b> How was your overall experience with the service today?	Ranked from very poor to very good.	
○ Ambulance care	92.46% Good	4.66% Poor
○ Integrated Care (NHS 111 Wales Telephone line only)	33.33% Good	41.67% Poor
○ EMS (including CSD)	86.67% Good	0.00% Poor
○ NHS 111 Wales Online	54.39% Good	22.81% Poor
	* Where totals above do not add up to 100%, this is because a 'Do Not Know' answer was given, these are excluded from overall total.	

## Dadansoddiad

O fewn arolwg NEPTS, ni chyrrhaeddodd yr ymateb a ddarparwyd y meincnod mewn perthynas â'r cwestiwn 'Pa mor hir y gwnaethoch chi aros i'ch cludiant eich cludo adref ar ôl eich apwyntiad', tra bod y cwestiwn 'Oeddech chi'n hapus gyda'r cludiant a gawsoch', wedi dod allan uwchlaw'r ffigur meincnod o 85 (n=95).

Yn yr arolwg 999 - roedd pob cwestiwn a adroddwyd arno yn rhagori ar y meincnod o 85 ac eithrio un, sef 'Roedd hyd yr amser aros i ambiwlans gyrraedd yn dderbyniol' (n=55). Er nad oedd unrhyw gwestiynau a adroddwyd arnynt wedi cyrraedd y meincnod o 85 yn yr arolwg 111.

Mae cyfraddau ymateb i arolygon 999 ac 111 yn parhau i fod yn isel ac mae'n cael ei gydnabod nad yw'r rhain yn adlewyrchu darlun cwbl gynrychioliadol yn seiliedig ar gyfrolau cyffredinol y galwadau.

## Cynlluniau a chamau adferol

Rydym yn parhau i ddarparu 4 arolwg craidd o Brofiad y Claf, sy'n cwmpasu prif feysydd darparu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth:

- Ymateb EMS 999 (gan gynnwys y Ddesg Gymorth Clinigol)
- Gofal Ambiwllans (NEPTS)
- Teleffoni GIG 111 Cymru
- GIG 111 Cymru ar-lein

Mae Asesiad o'r Effaith ar gyfer Gwella Personol i ganiatáu dosbarthu arolygon i gleifion drwy Negeseuon Testun ar hyn o bryd gyda'r Tîm Lywodraethu Gwybodaeth. Mae cyflymu cymeradwyaeth y DPIA hwn wedi'i godi gyda chydweithwyr uwch yn y Gyfarwyddiaeth Digidol.

Mae cynlluniau i osod codau QR yng nghefn cerbydau'r gwasanaeth meddygol brys i gynyddu adborth cleifion hefyd yn mynd rhagddynt ac rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Atal a Rheoli Heintiau a Fflyd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Arweinydd Gwella Cwmpadau'r Ymddiriedolaeth i gynnal arolwg wedi'i dargedu sy'n edrych ar brofiadau pobl sy'n cael ymateb gan ymatebwr cwmpadau Lefel 1 neu Lefel 2. Mae cynlluniau ar waith i ddyblygu'r dull hwn o gyflwyno arolwg gyda chleifion sy'n cael gofal gan Ymatebwr Lles Cymunedol gwirfoddol.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â Bwrdd y Rhaglen Unwaith i Gymru sydd wedi diweddarau 'Set Cwestiynau Profiad Cleifion Cymru Gyfan' a 'Fframwaith Profiad Pobl'. Bydd y Fframwaith a chwestiynau newydd yn cael eu lansio'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf.

## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Nod cyffredinol o gynyddu gwelededd arolygon profiad a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gasglu data profiad cleifion.

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

# Ein Pobl Capasiti - Dangosyddion Tynnu a Chynhyrchu Ambiwylansys


(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

Cynhyrchu EA Absenoldebau

**G** **R**

CI PCC

FPC




**Dadansoddiad**  
Mae cyfanswm yr oriau EMS a gynhyrchwyd yn fetrig allweddol ar gyfer diogelwch cleifion. Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth 109,257 awr yn ystod mis Chwefror 2025, gostyngiad o'i gymharu â'r 118,349 awr a gynhyrchwyd yn ystod mis Chwefror 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni lefelau da o gynhyrchu.

Fel y dangosir yn y graff gwaelod, mae tyniadau misol o'r rhestrau dyletswyddau yn allweddol i reoli nifer yr oriau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u cynhyrchu, yn ogystal â chyfanswm nifer y staff mewn swydd. Ym mis Chwefror 2025, gwelwyd cyfanswm o 29.36% o dyniadau EMS (ac eithrio Hyfforddiant Sefydlu). Roedd hwn yn gynnydd bach iawn ar y 29.19% a gofnodwyd ym mis Ionawr 2025 ac mae'n cyflawni'r meincnod o 29.91%. Y gyfran uchaf o achosion o dyniadau oedd oherwydd gwyliau blyneddol sef 10.90% ac yna salwch sef 7.10%.

**Cyrhaeddodd Cynhyrchu Oriau Uned (UHP) Ambiwylans Brys 92% ym mis Chwefror 2025** a oedd yn cyfateb i 71,840 o Oriau Gwirioneddol.

Ym mis Chwefror 2025 roedd UHP CHARU 91% yn erbyn y gofyniad cyflwyno llawn.





**Cynlluniau a chamau adferol**

- Ffocws parhaus ar reoli presenoldeb ar draws yr Ymddiriedolaeth a rheoli tynnu sylw at restrau dyletswydd.
- Cyflwyno unedau CHARU yn llawn.
- Ffocws parhaus ar staff mewn swydd i'r sefydliad, gan anelu at feincnod o 95%.
- Llyfnhau staff rhwng ardaloedd trefol a gwledig.
- Canolbwyntio ar recriwtio i leihau'r bylchau mewn swyddi gwag a nodwyd, yn benodol, Technegwyr Meddygol Brys ac Ymarferwyr Parafeddygol Uwch.

**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
Mae amcangyfrifon UHP, yn seiliedig ar lefelau recriwtio, amcangyfrifon o dynnu gwaith a goramser, wedi'u darparu i ELT. Mae cynhyrchu yn dda. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal uchelgais i leihau salwch i 6% a chynnal tyniadau i 30%. Nid yw hyn wedi'i gyflawni eto ar gyfer salwch, ond mae'r cyfeiriad teithio yn dda, tra bod y meincnod tyniadau wedi'i gyflawni nifer o weithiau eleni.

# Ein Pobl Capasiti - Dangosyddion Absenoldeb Salwch

(Swyddog Cyfrifol: Angela Lewis)




### Dadansoddiad


Bu gostyngiad bach yng nghyfraddau absenoldeb salwch cyffredinol rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025, gan ostwng o 8.69% i 8.46%. Gostyngodd absenoldeb hirdymor o 6.19% ym mis Rhagfyr 2024 i 5.30% ym mis Ionawr 2025, tra bod absenoldeb tymor byr wedi cynyddu ychydig i 3.16% ym mis Ionawr o fis Rhagfyr 2024 (2.49%).

Y rhesymau mwyaf cyffredin dros absenoldeb ym mis Ionawr 2025 oedd gorbryder/straen/iselder, annwyd/peswch/ffliw, problemau cyhyrsgerbydol eraill, problemau gastroberfeddol ac anaf neu doriad. Gostyngodd absenoldeb oherwydd iechyd meddwl ychydig o 2.93% ym mis Rhagfyr 2024 i 2.78% ym mis Ionawr 2025.

O ddechrau'r ymgyrch fflw tan 3 Chwefror-25, mae 1,422 o frechlynnau fflw bellach wedi cael eu rhoi gan ein brechwyr Iechyd Galwedigaethol / Cyfoedion WAST. Rhoddwyd 1,039 i staff a gyflogir gan WAST gyda 222 o staff WAST hefyd yn cadarnhau eu bod wedi derbyn y brechlyn fflw mewn manau eraill hy. meddyg teulu / fferyllfa, felly mae 28.5% o weithlu WAST bellach wedi cael eu brechu. Mae 244 o staff WAST eraill wedi cwblhau ein ffurflen Microsoft Forms i ddatgan eu bod am optio allan o gael y brechlyn fflw eleni.



Diwrnodau gwaith a gollwyd fesul Cywerth ag Amser Llawn (Blynnyddol)	
18.02 diwrnod	
% Absenoldeb mi sengl	
8.46%	
Tymor Hir	Tymor Byr
5.30%	3.16%
Iechyd Meddwl	Cyhyrsgerbydol arall
2.78%	0.79%
<small>(S10 Straen/Gorbryder)</small>	<small>(ac eithrio'r cefn)</small>



### Cynlluniau a champau adferol

- Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda thîm prosiect fflw'r Gyfarwyddiaeth Clinigol ar gyfer ymgyrch fflw 2024/25, ac maen nhw wedi bod yn cynnal clinigau fflw ar draws y rhanbarthau. Oherwydd adnoddau cyfyngedig o fewn y tîm, rydym wedi diwygio cynllun y rhaglen ar gyfer y Rhaglen Archwiliad Iechyd Beilot, Diagnosteg Iechyd, sy'n edrych ar leihau'r risg o salwch cardiaidd yn ein gweithlu hŷn, trwy weithredu rhaglen sgrinio. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r darparwr i drefnu hyfforddiant perthnasol ac i lansio'r rhaglen ym mis Chwefror.
- Bydd cyfathrebu'n parhau i yrru a hyrwyddo'r Ymgyrch Fflw er mwyn ymgysylltu â'r nifer uchaf posibl o staff. Mae brechwyr Iechyd Galwedigaethol / cyfoedion wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau hyd yn hyn ac mae yna sawl digwyddiad allweddol o hyd lle bydd brechwyr ar gael i hyrwyddo'r brechlyn fflw ymhellach. Daeth yr ymgyrch fflw i ben ar 28 Chwefror 2025.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig



Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi drwy ei Chynllun Tymor Canolig Integredig y bydd lefelau salwch yn gostwng yn y flwyddyn ariannol hon, ond nid yw'r Ymddiriedolaeth yn mynd i gyflawni'r targed o 6% ar gyfer y flwyddyn.

\*DS: Bydd data salwch bob amser yn cael ei adrodd fis ar ei ôl

**Ionawr 2025**

# Ein Pobl Capasiti – Trosiant Staff

(Swyddog Cyfrifol: Angela Lewis)



**Dadansoddiad**  
Roedd cyfraddau trosiant staff ym mis Chwefror 2025 yn 7.98%, gan gynyddu ychydig bach o 7.95% ym mis Ionawr 2025. Ym mis Chwefror gadawodd 29 o bobl (25.98 CALI). Mae trosiant mewn misoedd ar ddiwedd y chwarter yn gyffredinol yn uwch. Cafodd hyn ei ddigolledu gan 34 o aelodau'n ymuno (31.78 CALI) ym mis Chwefror. O'r rhai a adawodd, y grŵp gyda'r nifer fwyaf oedd Technegwyr (7 o bobl), Parafeddygon (5 o bobl) a Chynorthwywyr Gofal Ambiwylans neu Yrwyrr Cludiant Cleifion (5 o bobl).

Mae Iechyd Galwedigaethol yn parhau i gyrraedd dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol a osodwyd gan safonau a chwmpas ymarfer Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan, hy. o ran amseroedd troi atgyfeiriadau mae'r dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol yn nodi: Bydd y dyddiad apwyntiad cyntaf a gynigir o fewn 29 diwrnod calendr i'r dyddiad y derbyniwyd yr atgyfeiriad. Dangosydd perfformiad allweddol bod hyn yn cael ei gyflawni 80% o'r amser.

Mae ein hamseroedd aros wedi amrywio dros y misoedd diwethaf, mae hyn oherwydd newidiadau staff a salwch staff. Yr amser aros cyfredol ar gyfer atgyfeiriad (atgyfeiriad rheoli neu hunanatgyfeiriad yw 3 wythnos). Ar hyn o bryd, mae staff yn aros tua 4.3 diwrnod o ddyddiad cyflwyno i'r apwyntiad cyntaf sydd ar gael ar gyfer sgrinio cyn-gyflwogaeth.

- Cynlluniau a chamau adferol**
- Mae'r tîm yn parhau i weithio'n agos gyda Civica i wella'r system, gan gynnwys gwasanaeth neges testun atgoffa ar gyfer apwyntiadau.
  - Mae'r tîm Lles yn parhau i gefnogi cydweithwyr a rheolwyr drwy fynychu cyfarfodydd rheolaidd, darparu cefnogaeth dargedig a hwyluso sesiynau galw heibio i gydweithwyr.
  - Mae aelodau tîm o Iechyd Galwedigaethol/Lles/TRiM yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaethau drwy Siren, ymweliadau â gorsafod eraill/clinigau galw heibio, cyflwyno i staff newydd eu recriwtio a thrwy fynychu cyfarfodydd rheolwyr.
  - Cymeradwywyd Cynllun Iechyd a Llesiant 2025-29 gan Fwrdd WAST yn Chwarter 3 2024/25. Bydd y cyfnod dosbarthu yn dechrau ym mis Ebrill 2025. Ffocws y cynllun yw tynnu sylw at wella perthnasoedd yn y gweithle, cynyddu ymwybyddiaeth o drawma yn y sefydliad a mynd i'r afael â heriau iechyd a lles yn gynyddol ar lefel systemig, yn ogystal â darparu cefnogaeth ar lefel unigol.

**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
Mae'r tîm yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth Iechyd Galwedigaethol a Lles, fel ein bod yn sicrhau bod y gwasanaethau/ymiriadau a gynigir yn berthnasol, yn briodol, ac yn gyfoes, ein ffocws yw gwelliant parhaus.

# Ein Pobl Gallu - Dangosyddion AGDP a Chyfraddau Hyfforddi

(Swyddog Cyfrifol: Angela Lewis)

CADP  
**A**


Statudol a Gorfodol  
**G**

CI

PCC

Safon lechyd a Diogelwch lechyd - Staff ac Adnoddau

Hunanasesiad: Cryfder Rheolaeth Fewnol: Cryf



**Dadansoddiad**  
Cynyddodd cyfraddau AGDP ychydig bach o 77.02% ym mis Ionawr 2025 i 79.79% ym mis Chwefror 2025 ac mae'n agos at y targed o 85%. Dros y cyfnod adrodd dim ond unwaith y cyflawnwyd y targed hwn, ym mis Rhagfyr 2022.

Ym mis Ionawr 2025, adroddodd cyfraddau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol gydymffurfiaeth gyfunol o 85.93% gan ragori ar y targed o 85% am y trydydd mis yn olynol. Fodd bynnag, dim ond Ymwybyddiaeth o Dementia (97.23%), Symud a Thrin (94.29%) a Diogelu Oedolion (91.59%), a gyrhaeddodd y targed o 85%. Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (82.29%) Diogelwch Tân (77.06%), Paul Ridd (75.03%), Llywodraethu Gwybodaeth (74.40%), Ymwybyddiaeth o Dwyll (73.73%), Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (73.12%) ac Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (69.74%) i gyd yn parhau i fod islaw'r targed hwn.

Ar hyn o bryd mae 18 cwrs Statudol a Gorfodol y mae'n rhaid i weithwyr y GIG eu cwblhau yn eu cyflogaeth.

Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl:

**Cynlluniau a champau adferol**

Mae ymgysylltiad yn y broses AGDP yn gwasan -aethu fel metrig allweddol ar gyfer gwerthuso iechyd diwylliannol tîm.



Drwy gynyddu ymgysylltiad â'r broses AGDP, ein nod yw gwella Datblygiad gweithwyr, cefnogi cyfathrebu gwell rhwng rheolwyr a gweithwyr a datblygu diwylliant o atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Mae'r ddringfa tuag at gyflawni'r targed o 85% wedi parhau ar draws gweddill cymwyseddau'r Fframwaith Hyfforddi Sgiliau Craidd, a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i gynyddu wrth i fwy o gynnwys dysgu gael ei symud i'r amgylchedd hawdd ei ddefnyddio gan alluogi mynediad haws at y cymwyseddau adroddadwy hyn.

**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**

Mae'r perfformiad yn gwella wrth i gydymffurfedd gynyddu.



Skills and training Framework	NHS Wales Minimum Renewal Standard
Equality, Diveristy & Human Rights (Treat me Fairly)	3 years
Fire Safety	2 years
Health, Safety & Welfare	3 years
Infection Prevention & Control Level 1	3 years
Information Governance (Wales)	2 years
Moving and Handling Level 1	2 years
Resuscitation	Yearly
Safeguarding Adults Level 1	3 years
Safeguarding Children Level 1	3 years
Violence & Aggression (Wales) Module A	No Renewal
Mandatory Courses	
Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence	3 years
Dementia Awareness	No renewal
Welsh Language Awareness	3 years
Paul Ridd Learning Disability Awareness	No Renewal
Enviroment, Waste and Energy (Admin & Clerical Staff only)	Yearly
Duty of Quality	3 years
Fraud Awareness	3 years
Prevent Awareness	No Renewal



Ffynhonnell y data: ESR

# Ein Pobl Iechyd a Llesiant – Sifftiau'n gor-redeg

(Swyddog Cyfrifol: Angela Lewis)




## Dadansoddiad

Bu i 3,599 o sifftiau or-redeg yn ystod mis Chwefror 2025.

Y ffigur cyfartalog ar gyfer sifftiau'n gor-redeg ar gyfer mis Chwefror 2025 oedd 38 munud a 36 eiliad, gostyngiad bach iawn o fis Ionawr 2025 (00:42:14). Mae'r duedd yn parhau i fod ar i lawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r nifer uchaf o sifftiau'n gor-redeg yn digwydd o fewn y categori 0 i 60 munud, gan gyfrif am 75.1% o'r cyfanswm. Mae 19.2% yn dod o fewn y categori 61 i 120 munud, 4.6% yn y categori 121 i 180 munud, 0.3% yn y categori 181 i 240 munud a 0.2% yn y categori 241 munud a mwy.



## Cynlluniau a champau adferol



Mae sifftiau'n gor-redeg yn elfen allweddol o lesiant staff ac mae gwaith yn parhau i liniaru'r rhain ar y cyd â throsglwyddo staff, gan fod cydberthynas glir, er na ddangosir yma.

Fel rhan o gynllunio gwydnwch gaeaf yr Ymddiriedolaeth, cyflwynodd "codennau" mewn rhai lleoliadau ysbytai i gynorthwyo staff i orffen ar amser. Mae'r rhain yn parhau, ar hyn o bryd, i mewn i 2024/25.

## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Mae sifftiau'n gor-redeg yn cydberthyn ag oriau a gollwyd wrth drosglwyddo a gallant barhau i gynyddu.

# Diwylliant – Nifer y Gwrandawiadau Disgyblu Parch a Datrys a Nifer yr Ymgeiswyr a Roddwyd ar y Rhestr Fer o Grwpiau heb Gynrychiolaeth Ddigonol



**Dadansoddiad**  
Roedd 42 achosion disgyblu ffurfiol agored a gofnodwyd ddiwedd mis Chwefror 2025, sy'n ostyngiad bach o'i gymharu â 43 ym mis Ionawr 2024. O'r achosion disgyblu hyn, mae'r mwyafrif unwaith eto oherwydd honiadau o ymddygiad amhriodol, ac yna twyll.

Cyflwynwyd 16 achos Parch a Datrys ffurfiol agored gan weithwyr ym mis Chwefror 2025, gan barhau'n gyson â mis Ionawr 2025 (16). Mae'r rhain yn gymysgedd o Barch a Datrys Cwynion ac Urddas yn y gwaith.

Mae'r graff gwaelod yn dangos, ym mis Chwefror 2025, bod 1,339 o geisiadau am swyddi wedi'u prosesu, a 333 o gyfweliadau wedi'u cynllunio.

O'r 1,339 o geisiadau, roedd cyfanswm o 810 gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gyda 510 yn y categori Ethnigrwydd, 141 o fewn Anabledd a 159 yn uniaethu o fewn Cyfeiriadedd Rhywiol.

Ym mis Chwefror 2025, llwyddodd 15.1% (n=122) o'r holl geisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gyrraedd y rhestr fer a chawsant eu gwahodd i gyfweliad. Roedd hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r 15.8% ym mis Ionawr 2025.

**Cynlluniau a chamau adferol**  
*Achosion Disgyblu Ffurfiol Parch a Datrys:* Parhau i fonitro. Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen waith sylweddol ar waith, sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau.

*Ceisiadau:* Mae'r gwaith recriwtio cynhwysol yn parhau i ddatblygu ymgyrchoedd a digwyddiadau recriwtio wedi'u targedu. Mae dau weithdy wedi digwydd i recriwtio ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol i'n rolau digidol. Mae hyfforddiant rhagfarn diarwybod ar y gweill i'r rheolwyr a fydd yn rhan o'u recriwtio.

**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
Parhau i fonitro lefelau, dim taflwybr ar gyfer y mesur hwn.


# Cyllid, Adnoddau a Gwerth

## Gwerth: Dangosyddion Gofal Ambiwllans

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

Achosion canslo  
**R**

FPC



### Dadansoddiad

Gostyngodd nifer y cansladau i mewn o fewn 5 munud i'r criw yn cyrraedd i 211 ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 349 ym mis Ionawr 2025. Gostyngodd cyfanswm y cansladau o fewn 30 munud hefyd o 640 ym mis Ionawr 2025 i 426 ym mis Chwefror 2025.

Ym mis Chwefror 2025 roedd 51 o archebion teithio wedi'u canslo gan gleifion (gan gynnwys drwy neges destun), gan ostwng o 92 ym mis Ionawr 2025.

Ymhlith y prif resymau eraill dros ganslo mewn llai na 5 munud roedd: 21 o gleifion heb eu canfod, 14 yn sâl/rhy sâl i deithio ac 11 heb apwyntiad.

Cynyddodd nifer yr achosion canslo ar yr un diwrnod ychydig ym mis Chwefror 2025 i 12.2%, i fyny o 12% ym mis Ionawr 2025.

### Cynlluniau a champau adferol

Mae gwaith gyda Hywel Dda i ddatblygu cysylltiad uniongyrchol rhwng eu system PAS a'n CAD wedi'i ohirio oherwydd gwrthdaro rhwng blaenoriaethau sefydliadol. Unwaith y bydd hyn ar waith, bydd yn caniatáu i WAST gael gwybod unwaith y bydd y bwrdd iechyd yn canslo neu'n newid apwyntiad sydd angen cludiant WAST.



Mae gwaith hefyd ar y gweill i wella opsiynau negeseuon testun y gwasanaeth er mwyn gwella'r broses o hysbysu cleifion.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau, nid ydym yn rhagweld newid sylweddol yn y trywydd gan fod llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol.

*Noder y gallai'r ffigurau hynny fod yn is na'r cyfansymiau cyffredinol oherwydd nad oes gan rai cofnodion ddyddiad canslo.*

*\*Sylwch nad yw'n ymddangos MDT yn darparu rhesymau canslo penodol ar gyfer teithiau i mewn na theithiau allan. Ar hyn o bryd mae yna resymau lluosog a dyblyg y gall criwiau, yr ystafell reoli a'r ddesg gyswllt ddewis.*




# Cyllid, Adnoddau a Gwerth Gwerth - Dangosyddion Cyllid

(Swyddog Cyfrifol: Chris Turley)

G

FPC

Financial Balance - Annual Expenditure YTD as % of Budget Expenditure YTD



## Dadansoddiad

Y perfformiad alldro a adroddwyd ym Mis 10 yw gwarged o £42mil, gyda rhagolwg o adennill elw erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar gyfer Mis 10 mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd arbedion cynlluniedig o £5.084m ac arbedion gwirioneddol o £5.481m (cyfradd cyflawniad o 107.1%).

Mae perfformiad cronus yr Ymddiriedolaeth yn erbyn Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ym Mis 10 yn 97.7% yn erbyn targed o 95%.

Ym Mis 10 mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni ei Derfyn Cyllido Allanol a'i Derfyn Gwariant Cyfalaf.

## Cynlluniau a chamau adferol


Nid oes angen cynllun adferol o ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn gwneud elw; fodd bynnag, mae'r meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn cynnwys y canlynol:-

- Cynnal adolygiad o gyfleoedd masnachol ar gyfer cynhyrchu incwm (Adroddiad yn cael ei ystyried gan grŵp yr FSP).
- Ffocws parhaus ar raglen cynaliadwyedd ariannol yr Ymddiriedolaeth.
- Llywodraethu gwell ar gyfer Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, gyda ffocws penodol ar feincnodi; a
- Dull gwell o wireddu buddion


## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Y disgwyl yw y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol, fel yr amlinellir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25; fodd bynnag, disgwylir y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol heriol a bydd angen iddi gyflawni lefel arbedion arfaethedig ym mlwyddyn ariannol 2024/25 o tua £6.4m.


Actual Trust Surplus/(Deficit) YTD - £000



Actual Savings YTD as % of Planned Savings YTD



YTD % of Non NHS Invoices Paid Within 30 Days - By Number & Value




# Cyllid, Adnoddau a Gwerth Defnydd EMS ac Amseroedd galwadau/sifft cyfartalog

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

Nifer y galwadau fesul sifft **R** Defnydd CHARU **G** FPC

*DS: Mae problemau ansawdd data wedi'u nodi o fewn data APP. Mae'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.*





**Dadansoddiad**  
**Roedd metrigau Defnydd Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2025 yn 63.8% ar gyfer pob math o gerbyd, cynnydd o 67% ym mis Ionawr 2025.** Gwelodd Ambiwlans Argyfwng y gyfradd uchaf yn ystod y mis sef 71.7%, sef y mis cyntaf i'r metrig hwn ostwng mewn saith mis. Mae angen i'r gyfradd defnyddio orau ar gyfer Ambiwlansys Argyfwng fod yn is fel eu bod yn rhydd i ymateb i alwadau sy'n dod i mewn.

Fel y dangosir yn y graff chwith isaf, cynyddodd y cylch swyddi cyfartalog ym mis Chwefror 2025 ar gyfer APP yn unig (1 awr 23 munud). Y lleill wedi'u lleihau, Gwasanaeth Gofal Brys (2 awr 39 munud), Ambiwlansys Argyfwng (2 awr 16 munud) a CHARU (48 munud).

Roedd cyfartaledd cyffredinol y galwadau fesul sifft yn 2.55 ym mis Chwefror 2025, sy'n dangos cynnydd bach o fis Ionawr 2025 (2.46). Roedd cyfartaledd o 2.62 o alwadau fesul sifft gan Ambiwlansys Argyfwng a 2.02 gan griwiau Gwasanaeth Gofal Brys. Mae hyn yn is na'r hyn a fyddai'n ddelfrydol ac yn ganlyniad oedi wrth drosglwyddo.

Mynychodd APPs 2.89 o alwadau fesul sifft ar gyfartaledd a CHARU 2.41. Mae'r ddau set o ddata yn cael eu hadolygu.



**Cynlluniau a chamau adferol**  
Mae swyddi Ambiwlans Argyfwng a Gwasanaeth Gofal Brys fesul sifft yn ganlyniad oedi wrth drosglwyddo yn y bôn.

Ar gyfer APPs, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Recriwtio APP newydd ei greu yn canolbwyntio ar welliant pellach, yn benodol, gwybodaeth well ac ail-drefnu rhestr ddyletswyddau.

Mae CHARU yn faes ffocws penodol. Mae dadansoddiad cychwynnol yn dangos bod cyfraniad CHARU i Goch yn cymharu'n ffafriol â'r adnodd blaenorol: Cerbydau Ymateb Brys.


**Llwybr Perfformiad Disgwyliedig**  
Mae gallu'r Ymddiriedolaeth i leihau'r cyfraddau defnydd uchel ar gyfer Ambiwlansys Brys a'r Gwasanaeth Gofal Brys yn ganlyniad trosglwyddo, nad yw'n ei reoli. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl cynnydd yn y defnydd o APP a CHARU yn ystod 2024/25 yn gysylltiedig â'r camau adferol a nodwyd uchod.

## Metrigau Trosglwyddo GIG111 a Dangosyddion Ymgyngghori a Chau GIG111

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

### Ffactorau Dylanwadol – Galw ac Oriau Clinigol a Gynhyrchwyd

*DS: Mae problemau ansawdd data wedi cael eu nodi yn 111. Mae'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.*



#### Dadansoddiad

Yn ystod mis Chwefror 2025, dyrannwyd 51,833 o alwadau i'r 14 categori a ddangosir yn y graff gyferbyn, gostyngiad o'i gymharu â'r 59,707 a welwyd yn ystod mis Ionawr 2025. Fodd bynnag, mae problemau ansawdd data yn parhau o fewn adrodd 111 ac maen nhw'n cael sylw ar hyn o bryd.

Galwadau a Gyfeiriwyd at Feddyg Teulu (trosglwyddo gofal) oedd y canlyniad uchaf o hyd i GIG111 gan gyfrif am 35.59% o'r holl alwadau yn ystod mis Chwefror 2025, ond bu gostyngiad sylweddol ers gweithredu'r Gwasanaeth Aseiad Clinigol 111 newydd.

Fel mae'r graff chwith isaf yn ei ddangos, ym mis Chwefror 2025, cafodd 5,801 o alwadau eu 'Hatal wrth y Ffynhonnell', heb unrhyw atgyfeiriad ymlaen, gostyngiad bach o'i gymharu â 6,471 ym mis Ionawr 2025. Atgyfeiriwyd 10,928 o alwadau i 999/Adran Argyfyngau ym mis Chwefror 2025.



Cynyddodd canran y galwadau 111 a atebwyd yn y Gymraeg o 0.88% ym mis Medi 2024 i 1.20% ym mis Hydref 2024. Roedd hyn yn cyfateb i 68% o'r holl alwadau 111 a gynigiwyd yn y Gymraeg yn cael eu hateb. Mae adolygiad ansawdd data yn cael ei gynnal sy'n golygu nad yw'r metrig hwn ar gael ar hyn o bryd.

#### Cynlluniau a chamau adferol

Ar hyn o bryd mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau 111. Mae hwn yn gyfarfod cydweithredol rhwng WAST, Chwe Nod, comisiynwyr a lechyd a Gofal Digidol Cymru. Y ffocws yw datblygu set ddata 111 y gellir ei hadrodd yn genedlaethol. Yn debyg i'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Dangosyddion Gwasanaeth Ambiwlans. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys edrych ar adrodd ar ganlyniadau terfynol gwaredu.

#### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Nid oes unrhyw lwybr perfformiad wedi'i bennu ar hyn o bryd, gan fod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu ei mesurau a'i systemau o amgylch y metrigau hyn. Ar ôl ei ddatblygu bydd cyfle i ddatblygu meincnodau. Y ffocws o hyd yw symud i'r chwith, lle mae'n ddiogel yn glinigol ac yn briodol gwneud hynny.





# Partneriaethau / Cyfraniad System Dangosyddion Ymgynghori a Chau

(Swyddog Cyfrifol: Lee Brooks)

Canlyniada  
u  
Ymgynghor  
i a Chau



DS: Mae problemau ansawdd data wedi cael eu nodi yn 111. Mae'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.



**Nid oes modd dadansoddi ychwanegol o ystyried nad oes data 111 ar gael ar hyn o bryd ar y metrigau hyn.**

**Mae metrig diwygiedig yn cael ei ddatblygu.**

**Gweler adroddiad lliniaru niwed i gleifion ar wahân i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.**

**Cytunwyd ar ddiffiniad metrig newydd. Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Comisiynydd lofnodi cyn iddo gael ei ddefnyddio.**

**Mae graff sicrwydd IDS untro yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni cyfradd ymgynghori a chau o +20%.**

# Partneriaethau / Cyfraniad System Trosglwyddo i Ddangosyddion Adran Achosion Brys

(Swyddog Cyfrifol: Andy Swinburn)


Trosglwyddia dau

G

FPC

Mesur Gweinigol

*DS: Mae problemau ansawdd data wedi'u nodi yn nata APP. Mae'r rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.*



## Dadansoddiad

**Ym mis Chwefror 2025, cafodd 11.20% o gleifion (1,311) eu cludo i wasanaeth heblaw am Adran Achosion Brys Math Un, tra bod 34.73% o gleifion wedi'u cludo i Adran Achosion Brys fawr, fel canran o ddigwyddiadau wedi'u gwirio.**

Gostyngodd nifer cyfunol y digwyddiadau a gafodd eu trin yn y fan a'r lle neu a atgyfeiriwyd at ddarparwyr eraill, o 3,684 ym mis Ionawr 2025 i 3,124 ym mis Chwefror 2025.

Roedd cyfradd trosglwyddo APP yn 46.6% ym mis Hydref 2024 ac mae'n parhau i brofi tuedd gynyddol gyffredinol ers mis Mawrth 2023; tra bod y tabl DCR yn tynnu sylw yn ôl cod at y digwyddiadau lle dylai'r ymateb a ffeirir fod yn APP (os yw ar gael). Mae cynlluniau peilot ar waith i anfon adnoddau clinigol uwch a gwell at y claf i reoli gofal yn ddiogel yn agosach at adref, fodd bynnag, mae ansawdd data yn cael ei asesu ac felly nid oes data pellach ar gael.




Arhosodd cleifion a gludwyd i leoliad gofal brys yr un diwrnod ym mis Hydref 2024 yn isel ar 0.14%. Nid oes unrhyw ddata pellach ar gael.

## Cynlluniau a chamau adferol

- Cyfraniad parhaus at strategaeth gofal brys yr un diwrnod, y rhaglen chwe nod gyda chamau gweithredu y Bwrdd Iechyd o amgylch mesurau adrodd o atgyfeirio a sefydlu lleoliadau gofal brys yr un diwrnod mewn cyfnodau o waethygu. Dylid nodi bod data WAST yn adlewyrchu atgyfeiriad uniongyrchol i ofal brys yr un diwrnod lle mae rhai modelau Bwrdd Iechyd yn gofyn am drosglwyddiad i'r Adran Achosion Brys i ddechrau ac yna ffrydio i gofal brys yr un diwrnod ar y sail hon.
- Buddsoddiad pellach yn y gweithlu APP yn 2024/25 (+32 APP).
- Pecyn cymorth addysg ffurfiol a phecyn sefydlu ar gyfer APP wedi'i gytuno ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- Ymgorffori'r ymateb Gofal Brys o fewn Trawsnewid y Model Clinigol, optimeiddio tasgau (ochr yn ochr â phartneriaid BI os ydynt ar gael), amserlennu gofal a datblygu APP a'r gweithlu.
- Cynnwys ffrwd waith benodol ar Eiddilwch a Chwypmipiadau o fewn y Gwasanaeth Ymateb Gofal Brys gyda chyfranogiad yn yr adolygiad o Fframwaith Ymateb i Gwypmipiadau Cymru Gyfan ochr yn ochr â Chydweithwyr Gweithredol y GIG.


## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Mae Adolygiad Galw a Chapasiti EMS 2023 (strategol) yn modelu gwahanol gyflyrau yn y dyfodol. Mae'r senarios a fodelwyd yn dangos y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth esblygu ei model clinigol gyda byrddau iechyd hefyd yn lleihau'r amser trosglwyddo yn sylweddol ee. 12,000 awr neu 7,500 awr, ochr yn ochr â lefelau amrywiol o fuddsoddiad. Mae modelu tymhorol yn parhau i gael ei wneud.




# Partneriaethau / Cyfraniad System Dangosyddion Trosglwyddo

(Swyddog Cyfrifol: Byrddau Iechyd)



Notification to Handover Lost Hours by Health Board



## Dadansoddiad

**Collwyd 265,944 awr oherwydd Hysbysiad i Drosglwyddo, hy oedi wrth drosglwyddo i'r ysbyty, dros y 12 mis diwethaf (mis Mawrth 24 i fis Chwefror 25), o'i gymharu â 265,615 awr dros yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.** Roedd 18,811 oriau a gollwyd ym mis Chwefror 2025, sydd 21.27% yn is na'r 23,896 awr a gollwyd yn ystod mis Chwefror 2024.

Yr ysbytai gyda'r lefelau uchaf o oedi trosglwyddo yn ystod mis Chwefror 2025 oedd fel a ganlyn:

- Ysbyty Athrofaol Y Faenor (BIPAB) ar 3,526 o oriau coll
- Ysbyty Treforys (PIPBA) ar 2,616 o oriau coll
- Ysbyty Maelor (BIPBC) ar 2,400 o oriau coll
- Ysbyty Gwynedd (BIPBC) ar 2,206 o oriau coll
- Ysbyty Glan Clwyd (BIPBC) ar 2,002 o oriau coll

Roedd cyfartaledd yr oriau coll a roddwyd ar gyfer hysbysiad i drosglwyddo yn 672 awr y dydd yn ystod mis Chwefror 2025 (28 diwrnod) o'i gymharu ag 878 awr y dydd (31 diwrnod) ym mis Ionawr 2025.

Ym mis Chwefror 2025, gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i tua 5,934 yn fwy o gleifion pe bai trosglwyddiadau wedi'u lleihau, sy'n tynnu sylw at yr effaith y mae'r niferoedd hyn yn dal i'w chael ar y gwasanaeth.

Ym mis Chwefror 2025, arhosodd 858 o gleifion dros 12 awr am ymateb ambiwlans.


## Cynlluniau a chamau adferol

Mae pob Swyddog Gweithredol ac Anweithredol wedi treulio cryn dipyn o amser yn tynnu sylw at y mater diogelwch cleifion hwn i Gomisiynwyr, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru/ Gweinidogion, a bydd hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn wrth i ni geisio dylanwadu a rhoi pwysau ar y system i wella.


## Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Targed trosglwyddo Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yw dim arosiadau dros awr; mae hyn yn cyfateb i 7,500 o oriau coll oherwydd oedi wrth drosglwyddo bob mis. Byddai angen gostyngiad o 60% yn lefelau trosglwyddo presennol er mwyn cyflawni hyn.

Handover Rates Over 1 Hour (including first 15 minutes)




Number of Patient Waits over 12 hours by Priority Type  
Cumulative Position over last 12 months (Mar-24 to Feb-25)



# Partneriaethau / Cyfraniad System

(Swyddog Cyfrifol: Byrddau Iechyd)



## Oriau a gollwyd wrth drosglwyddo yn erbyn digwyddiadau Coch ac Oren 1 a ymatebwyd iddynt



### Dadansoddiad

Mae'r graff uchaf yn tynnu sylw at y ffaith, wrth i oriau coll wrth drosglwyddo gynyddu ers mis Chwefror 2022, fod nifer y digwyddiadau Coch yr ymatebwyd iddynt wedi cynyddu hefyd. Mae hyn yn dangos pan fydd Cynllun Diogelwch Clinigol mewn cyfnodau o alw mawr a bod trosglwyddo ysbytai yn cynyddu, bod ymatebion Coch yn cael eu diogelu, hyd yn oed yn ystod pwysau uchel o fewn y system.

Fodd bynnag, fel mae'r graff gwaelod ar y dde yn ei ddangos, mae cydberthynas rhwng cynnydd mewn oriau coll a gostyngiad yn nifer y digwyddiadau Oren 1 yr ymatebir iddynt, yn enwedig ar adegau o alw mawr, fel yn ystod mis Rhagfyr 2022. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y bydd rhai o'r cleifion hyn o fewn y categori Oren 1 yn dal i fod yn ddifrifol wael.



### Cynlluniau a chamau adferol

Mae pob Swyddog Gweithredol ac Anweithredol wedi treulio cryn dipyn o amser yn tynnu sylw at y mater diogelwch cleifion hwn i Gomisïynwyr, Byrddau Iechyd a Llywodraeth/Gweinidogion Cymru, a bydd hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn wrth i ni geisio dylanwadu a rhoi pwysau ar y system i wella.

### Llwybr Perfformiad Disgwyliedig

Targed Llywodraeth Cymru yw peidio â throsglwyddo cleifion o fwy nag awr, sy'n cyfateb i 7,500 o oriau coll y mis. Targed Llywodraeth Cymru oedd gweld gostyngiad o 30% yn y metrig hwn erbyn mis Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gyflawni, gyda'r 18,812 awr wedi'u colli ym mis Chwefror 2025.

Term	Definition	Term	Definition	Term	Definition	Term	Definition	Term	Definition
AB / ABHB	Aneurin Bevan / Aneurin Bevan Health Board	CTM / CTMHB	Cwm Taf Morgannwg Health Board	HIW	Health Inspectorate Wales	NHSDW	National Health Service Direct Wales	ROSC	Return Of Spontaneous Circulation
AOM	Area Operations Manager	C&V / C&VHB	Cardiff & Vale / Cardiff & Vale Health Board	HI	Health Informatics	NPUC	National Programme for Unscheduled Care		
APP	Advanced Paramedic Practitioner	DAG	Delivery & Assurance Group	H&W	Health & Wellbeing	NQPs	Newly Qualified Paramedic	RRV	Rapid Response Vehicle
AQI	Ambulance Quality Indicator	D&T	Discharge & Transfer	HR	Human resources	NRI	Nationally Reportable Incident	SB / SBUHB	Swansea Bay / Swansea Bay Health Board
BCU / BCUHB	Betsi Cadwaladr / Betsi Cadwaladr university Health Board	DU	Delivery Unit	HSE	Health and Safety Executive	OBC	Outline Business Case	SCIF	Serious Concerns Incident Forum
CASC	Chief Ambulance Services Commissioner	EAP	Employee Assistance Provider	IG	Information Governance	OD	Organisational Development	STEMI	ST segment Evaluation Myocardial Infarction
CCC	Clinical Contact Centre	ED	Emergency Department	IMTP	Integrated Medium Term Plan	ODU	Operational Delivery Unit	TPT	Tactical Pandemic Team
CCP	Complex Case Panel	ELT	Executive Leadership Team	IPR	Integrated Performance Report	OH	Occupational Health	TU	Trade Union
CEO	Chief Executive Officer	EMD	Emergency Medical Department	JCC	Joint Commissioning Committee	P / PHB	Powys / Powys Health Board	UCA	Unscheduled Care Assistant
CFR	Community First Responder	EMS	Emergency Medical services	KPI	Key Performance Indicator	PCR / PCRs	Patient Care Record(s)	UCS	Unscheduled Care System
CI	Clinical Indicator	ePCR	Electronic Patient Care Record	LTS	Long Term Strategy	JRCALC	Joint Royal Colleges Ambulances Liaison Committee	UHP	Unit Hours Production
CHARU	Cymru High Acuity Response Unit	FTE	Full Time Equivalent	MACA	Military Aid to the Civil Authority	PECI	Patient Engagement & community Involvement	U/A RTB	Unavailable – return to Base
COOs	Chief Operating Officers	GDPR	General Data Protection Regulations	MIU	Minor Injury Unit	POD	Patient Offload department	VPH	Vantage Point House (Cwmbran)
COPD	Chronic Obstructive Pulmonary Disease	GPOOH	General Practitioner Out of Hours	MPDS	Medical Priority Dispatch System	PPLH	Post Production Lost Hours	WAST	Welsh Ambulance Services University NHS Trust
COVID-19	Corona Virus Disease (2019)	GTN	Glyceryl Trinitrate	NCCU	National Collaborative Commissioning Unit	PSPP	Public Sector Purchase Programme	WG	Welsh Government
CMT	Clinical Model Transformation	HB	Health Board	NEPTS	Non-Emergency Patient Transport Services	QPSE	Quality, Patient Safety & Experience	WIIN	WAST Improvement & Innovation Network
CSD	Clinical Service Desk	HCP	Health Care Professional	NEWS	National Early Warning Score	RCS	Rapid Clinical Screening		
CSP	Clinical Safety Plan	HD / HDHB	Hywel Dda / Hywel Dda Health Board	NHS	National Health Service	RICS	Remote Integrated Care Service		

# Diffiniad dangosyddion

Dangosydd	Diffiniad	Dangosydd	Diffiniad
<b>Gadael galwadau 111</b>	Galwad a gynigir yw un sydd wedi mynd trwy'r negeseuon Ymateb Llais Rhyngweithiol ac wedi parhau i siarad â Thrinwr Galwadau. Mae sawl opsiwn i'r galwr wasanaethu ei hun o'r opsiynau a gyflwynir yn yr Ymateb Llais Rhyngweithiol ac mae cyfran o alwyr yn dewis yr opsiynau hyn. Enghraifft yw tywys y galwr i 119 os ydyn nhw am siarad â rhywun am brawf Coronafeirws. Unwaith y bydd y galwr wedi'i roi yn y ciw ar gyfer y triniwr galwadau, os byddant yn rhoi'r ffôn i lawr, cânt eu cyfrif fel rhai sydd wedi'u "gadael" gan na wnaethom ateb yr alwad. Mae'r trothwy'n dechrau 60 eiliad ar ôl cael eu rhoi yn y ciw gan fod hyn yn caniatáu i'r galwyr ymateb i'r negeseuon a'r opsiynau a gyflwynir gan ei fod yn aml yn cymryd ychydig o amser i'r galwr ymateb. Mae cychwyn y cyfrif ar 60 eiliad yn rhoi darlun o adael lle mae'r galwr wedi dewis peidio ag aros, er gwaethaf bod eisiau siarad â thriniwr galwadau.	<b>Oriau a Gynhyrchwyd ar gyfer Ambiwllansys Argyfwng</b>	Cyfran yr oriau a gynhyrchwyd o fewn y mis calendr ar gyfer Cerbydau Ambiwllans Argyfwng (targed 95%).
<b>Cleifion 111 a alwyd yn ôl o fewn 1 awr (P1)</b>	(Targed perfformiad Llywodraeth Cymru) sy'n rhagnodi bod gan 111 hyd at 1 awr (yn hirach i alwyr prioriaeth is) i glinigydd 111 ffonio'r claf i drafod ei broblem feddygol. Bydd y galwyr hyn eisoes wedi cael eu sgrinio gan y trinwyr galwadau ac wedi derbyn canlyniad sy'n gofyn am sgwrs â chlinigydd 111. Mae WAST yn gweithredu dull ciw a galw yn ôl ar gyfer pob galwad glinigol.	<b>Absenoldeb Salwch (yr holl staff)</b>	Cyfrolau salwch staff fel canran ar gyfer yr holl staff a gyflogir o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.
<b>95fed canradd amseroedd ateb galwadau 999</b>	Amser a gymerir (mewn munudau) i ateb galwadau brys 999 gan drinwyr galwadau. Mae canradd yn fesur a ddefnyddir mewn ystadegau sy'n nodi'r gwerth y mae canran benodol o arsylwadau mewn grŵp o arsylwadau yn disgyn oddi tano. Er enghraifft, y 95fed ganradd yw'r gwerth y gellir dod o hyd i 95 y cant o'r arsylwadau oddi tano.	<b>Cyfraddau brechiadau COVID-19 rheng flaen</b>	Nifer y cleifion ar y rheng flaen (sy'n wynebu cleifion a phobl nad ydynt yn wynebu cleifion) sydd wedi derbyn ail frechiad COVID-19.
<b>Ymateb Coch 999 o fewn 8 Munud</b>	Canran y digwyddiadau 999 o fewn y categori Coch (sy'n peryglu bywyd ar unwaith) a gafodd ymateb brys yn y lleoliad o fewn 8 munud.	<b>Hyfforddiant Statudol a Gorfodol</b>	Canran gyfunol o staff sy'n cydymffurfio â'r hyfforddiant statudol gofynnol a gyflawnwyd gan staff lle mae corff statudol wedi gorchymyn bod yn rhaid i sefydliad ddarparu hyfforddiant yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â hyfforddiant penodol i'r fasnach y mae'r cyflogwr yn ei ystyried yn hanfodol neu'n orfodol ar gyfer swydd benodol. (Gellir gweld rhestr fanwl o'r rhain ar sleid 20).
<b>95fed Canradd Coch</b>	Amser a gymerir (mewn munudau) i ymateb brys gyrraedd y lleoliad ar gyfer galwadau Coch (sy'n peryglu bywyd ar unwaith) (DS: Y 95fed ganradd yw'r gwerth y gellir dod o hyd i 95 y cant o'r arsylwadau oddi tano).	<b>AGDP/Arfarniad meddygol</b>	Cyfran y staff sydd wedi cynnal eu Hadolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad (AGDP) neu Arfarnuad Meddygol blynyddol. Mae hon yn broses o hunanadolygu a gefnogir gan wybodaeth a gesglir o waith gweithwyr i fyfyrio ar gyflawniadau a heriau ac i nodi dyheadau ac anghenion dysgu. Mae'n amser gwarchoddedig unwaith y flwyddyn.
<b>95fed ganradd Oren 999</b>	Amser a gymerir (mewn munudau) i ymateb brys gyrraedd y lleoliad ar gyfer galwadau Oren 1 (argyfyngau eraill sy'n peryglu bywyd - gan gynnwys poenau yn y frest neu strôc). (DS: Y 95fed ganradd yw'r gwerth y gellir dod o hyd i 95 y cant o'r arsylwadau oddi tano.	<b>Staff Ymateb Ambiwllans CALI mewn swydd</b>	Nifer y staff Gwasanaethau Meddygol Brys, Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) sy'n gweithio i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.
<b>Adferiad cylchrediad digymell (ROSC)</b>	Canran y cleifion y mae adferiad cylchrediad digymell yn digwydd iddynt. Mae hyn yn cyfeirio at arwyddion o adfer cylchrediad gwaed (mwy na anadl achlysurol, curiad calon byrhoedlog neu donffurf rhydweliol) a ddangosir gan anadlu, curiad calon y gellir ei deimlo neu bwysedd gwaed mesuradwy.	<b>Gofal Ambiwllans, Gofal Integredig, Adnoddau a Chydgysylltu EMS CALI mewn swydd</b>	Nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) Gofal Ambiwllans, Gofal Integredig, Adnoddau a Chydgysylltu EMS sy'n gweithio i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.
<b>Cleifion Strôc â Gofal Priodol</b>	Cyfran y cleifion yr amheuir eu bod wedi cael strôc sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn bwndel gofal strôc priodol (bwndel yw grŵp o rhwng tri a phump o ymyriadau neu brosesau gofal penodol sydd â mwy o effaith ar ganlyniadau cleifion os cânt eu gwneud gyda'i gilydd mewn ffordd sydd wedi'i chyfyngu gan amser, yn hytrach nag ar wahân).	<b>Balans Ariannol - gwariant blynyddol o ddechrau'r flwyddyn hyd heddiw fel % o wariant y gyllideb</b>	Gwariant blynyddol (o ddechrau'r flwyddyn hyd heddiw) fel cyfran o wariant y gyllideb.
<b>Cleifion Syndrom Coronaidd Aciwt â Gofal Priodol</b>	Cyfran y cleifion STEMI sy'n derbyn gofal priodol. Trawiad ar y galon gyda chodiad segment ST - mae'n digwydd pan fydd rhydweli goronaidd wedi'i chau'n llwyr gan glot gwaed.	<b>Y Ddyletswydd Gonestrwydd</b>	Canlyniad anffafriol hysbysadwy yw unrhyw ddigwyddiad lle mae niwed (niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth) yn cael ei achosi, sy'n anfwriadol neu'n annisgwyl a bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor neu y gallai fod wedi bod yn ffactor sy'n peri i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.
<b>Teithiau Arennol yn cyrraedd o fewn 30 munud i'w hapwyntiad (NEPTS)</b>	Cyfran y teithiau arenol sy'n cyrraedd apwyntiadau ysbyty o fewn 30 munud (+/-) i amser eu hapwyntiad.	<b>Ymgynghori a Chau 111</b>	Mae Ymgynghori a Chau yn cyfeirio at yr ymateb i alwyr 999 lle darparwyd dewis arall yn lle ymateb i'r lleoliad. Mae carfan o alwadau 999 yn cael eu trosglwyddo i 111 lle maent yn aciwtedd isel ac efallai y bydd y clinigwyr yn 111 yn gallu helpu'r galwr gyda hunanofal, atgyfeirio, ac ati. Mae hyn yn debyg i waith y Ddesg Gymorth Clinigol ond ar gyfer galwr aciwtedd is. Pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad clinigol 111 yn gorffen mewn canlyniad Ymgynghori a Chau (gofal personol, atgyfeiriad, cludiant amgen) caiff hyn ei gofnodi ac mae'n rhan o adrodd Ymgynghori a Chau'r Ymddiriedolaeth. Mae dros 50% o alwadau sy'n cael eu trosglwyddo i 111 yn y modd hwn yn cael eu cau'n llwyddiannus heb ymateb ambiwlans.
<b>Teithiau Rhyddhau a Throsglwyddo a gasglwyd llai na 60 munud ar ôl eu hamser parod a archebwyd (NEPTS) Digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol (NRI)</b>	Cyfran y teithiau sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai a/neu eu trosglwyddo rhwng ysbytai a gasglwyd o fewn 60 munud i'r amser parod a archebwyd gan yr ysbyty.	<b>Clywed a Thrin 999 / 111</b>	Cyfran o alwadau 999/111 sy'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus (eu cau) heb anfon ymateb gan gerbyd ambiwlans. Gall hyn gynnwys cyngor, hunanofal neu atgyfeiriad at wasanaethau gofal brys eraill.
<b>Ymateb i bryderon o fewn 30 diwrnod</b>	Nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion a adroddwyd yn ystod y mis a achosodd neu a gyfrannodd at farwolaeth annisgwyl neu y gellid ei osgoi, neu niwed difrifol, i un neu fwy o gleifion, staff neu aelodau o'r cyhoedd, yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG.	<b>% y Digwyddiadau a gludwyd i Brif Adran Achosion Brys</b>	Cyfran y cleifion a gludwyd i Adran Achosion Brys ysbyty yn dilyn asesiad cychwynnol yn y fan a'r lle gan glinigydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, fel cyfran o gyfanswm y digwyddiadau a ddilyswyd. (DS: Mae Adran Achosion Brys yn darparu ystod eang o wasanaethau aciwt arbenigol cleifion mewnol ac allanol ynghyd â'r systemau cymorth angenrheidiol, sy'n caniatáu derbyniadau brys, ac sydd fel arfer ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys).
<b>Ymateb i bryderon o fewn 30 diwrnod</b>	Cyfran y pryderon yr ymatebwyd iddynt gan y tîm pryderon o fewn 30 diwrnod gwaith i dderbyn y gwŷn.	<b>Nifer o oriau a gollwyd wrth drosglwyddo</b>	Nifer yr oriau a gollwyd oherwydd amseroedd cylchdroi mewn Adrannau Achosion Brys yn cymryd mwy na 15 munud. Disgwylir na fydd trosglwyddo gofal claf o ambiwlans i Adran Achosion Brys yn cymryd mwy na 15 munud, gyda 15 munud pellach i griwiau ambiwlans baratoi eu cerbyd ar gyfer yr alwad nesaf.
<b>Cyfradd tyniadau EMS</b>	Canran y staff Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) nad ydynt ar gael ar gyfer dyletswyddau ar y rhestr oherwydd rhesymau, megis: gwyliau blynyddol, salwch, dyletswyddau amgen, hyfforddiant, eraill a COVID-19.	<b>Ceisiadau i ryddhau ar unwaith</b>	Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd i Fyrddau Iechyd i ryddhau cerbydau ar unwaith mewn adrannau argyfwng i'w rhyddhau yn ôl i'r gymuned i ymateb i alwadau brys eraill a galwadau sy'n peryglu bywyd

**Ymddiriedolaeth Britysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru**